# Arolwg: Gofal Lwpws yng Nghymru

## Taflen Wybodaeth i Gyfranogwyr

Rydym yn gofyn i bobl ledled Cymru am eu profiadau o ofal lwpws a sut y gellir ei wella. Hoffem eich gwahodd i roi adborth fel rhan o'r gwaith hwn.

Amdanom ni

Mae'r prosiect hwn wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru ac fe'i cefnogir gan arweinwyr clinigol yng Nghymru. Bydd y gwaith yn cael ei wneud gan CEDAR, grŵp ymchwil annibynnol y GIG.

Beth yw'r diben?

Gall siarad â phobl sydd â phrofiad o ofal lwpws yng Nghymru ein helpu i ddeall beth sy'n gweithio'n dda a beth allwn ni ei wneud i'w wella.

Pam ydych chi'n gofyn i mi?

Rydym am siarad ag ystod o gleifion sydd wedi derbyn gofal gan dimau ledled Cymru. Trwy siarad â chi, gallwn ddarganfod pa wasanaethau sy'n dda a pha wasanaethau sydd angen eu gwella. Mae'n bwysig i ni siarad ag amrywiaeth o wahanol bobl, a hoffem wybod am eich profiad a beth oedd yn dda neu'n ddrwg.

Beth fydd yn rhaid i mi ei wneud?

Os ydych am gymryd rhan, byddwch yn cwblhau arolwg ar-lein am eich profiad o ofal lwpws yng Nghymru. Bydd yn cymryd tua 15 munud.

Hoffem hefyd i rai pobl gymryd rhan mewn cyfweliadau neu grwpiau ffocws (cyfweliadau grŵp) fel y gallwn ddysgu mwy am eich barn am

ofal lwpws yng Nghymru. Mae'r arolwg a'r cyfweliadau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gellir rhedeg y grwpiau ffocws yn Gymraeg neu Saesneg yn dibynnu ar gyfranogiad a dewis. Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y cyfweliadau neu'r grwpiau ffocws hyn, pan fyddwch yn llenwi'r arolwg, gallwch adael eich enw a'ch manylion cyswllt i ni gysylltu â chi. Mae hyn yn golygu y byddwn yn gwybod beth oedd eich atebion i'r cwestiynau. Bydd eich ymateb i'r arolwg yn ddienw oni bai eich bod yn rhoi eich enw a'ch manylion cyswllt yn yr arolwg ei hun.

Beth fydd yn digwydd i'r wybodaeth rwy'n ei rhoi?

Bydd y wybodaeth o'ch arolwg yn cael ei defnyddio gydag adborth gan eraill i'n helpu i ddeall mwy am brofiad pobl o ofal lwpws yng Nghymru. Bydd hyn yn ein helpu i wella gwasanaethau yn y dyfodol. Bydd canfyddiadau'n cael eu hysgrifennu fel adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru. Bydd yr adroddiad hwn ar gael i'r cyhoedd ar wefan CEDAR.

A fydda i'n cymryd rhan yn gyfrinachol ac a fydd fy manylion personol yn ddiogel?

Bydd yr holl wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn gyfrinachol. Bydd y dulliau o drin a storio gwybodaeth bersonol yn dod o dan safonau diogelu data llym y GIG. Ein nod yw defnyddio'r wybodaeth a gawn o'r arolygon i ysgrifennu adroddiad a fydd ar gael i'r cyhoedd i unrhyw un ei ddarllen. Ni fyddwn yn defnyddio enwau go iawn na gwybodaeth bersonol unrhyw un, felly ni fydd unrhyw un sy'n darllen yr adroddiad yn gallu eich adnabod.

Beth fydd yn digwydd os byddaf yn newid fy meddwl?

Hoffem bwysleisio ei bod yn gwbl wirfoddol i gymryd rhan. Os ydych yn darparu eich manylion cyswllt ac yn cytuno i gymryd rhan mewn cyfweliad neu grŵp ffocws, ond yn newid eich meddwl yn nes ymlaen, gallwch dynnu'n ôl ar unrhyw adeg. Gallwch hefyd ddewis tynnu eich ymatebion i'r arolwg yn ôl ar ôl i chi eu cyflwyno; Fodd bynnag, ni fydd

hyn yn bosibl os byddwch yn cwblhau'r arolwg yn ddienw. Os nad ydych yn dymuno cymryd rhan, ni fydd yn effeithio ar safon y gofal a gewch na’ch hawliau cyfreithiol fel claf.